# CYLCHLYTHYR ARCHAEOLEGOL DYFED 2023



# 2023

Croeso i Gylchlythyr 2023 Archaeoleg Dyfed. Fe aethom ati i greu Cylchlythyr ar ôl Covid, er mwyn eich diweddaru chi i gyd ynghylch ein gwaith. Bu'n llwyddiant mawr, felly rydym wedi penderfynu parhau i wneud hyn bob blwyddyn! Rydym yn gobeithio eich bod wedi cael blwyddyn werth chweil, gallwn eich sicrhau ein bod ni wedi cael un dda iawn…

Roedd ein gwaith yn Ffordd Osgoi A40 Llanddewi Felffre-Croesffordd Maencoch wedi parhau yn Ionawr 2023, ac oherwydd bod cymaint o waith i'w wneud fel rhan o'r prosiect hwn, a sawl un arall eleni, cyflogwyd nifer o aelodau staff dros dro gennym.

Hefyd, ym mis Ionawr, roedd Helen Gant, sef un o'r gwirfoddolwyr a fu'n gweithio â ni ers tro, wedi ymuno â'n tîm. Bu Helen yn gweithio ar ein prosiect ffermydd hanesyddol, a bu'n helpu hefyd i reoli'r gwaith yng nghyswllt y Cynllun Henebion Cludadwy yn ystod y cyfnod y bu Jenna ar absenoldeb mamolaeth.

Roedd Jack Rowe wedi ymuno â ni ym mis Mehefin i gynorthwyo Jessica Domiczew gyda phrosiect Yr Ucheldiroedd Arfordirol: Treftadaeth a Thwristiaeth (UATT). Roedd yn ymwneud yn bennaf ag ymgysylltu cymunedol. Gan fod Prosiect CUPHAT wedi dod i ben yn 2023, gwelsom Jack yn ein gadael am borfeydd glasach, a Jessica yn ymuno â thîm gwasanaethau maes yr Ymddiriedolaeth i weithio ar sawl un o'n prosiectau masnachol.

Ymunodd Shelley Williams â'r tîm gwasanaethau maes ym mis Rhagfyr 2023 hefyd, ar ôl gweithio i ni'n flaenorol ar brosiect yr A40.

Ym Mehefin 2023, roedd aelodau Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed wedi pleidleisio o blaid uno'r pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol yng Nghymru. Cymerwyd y cam cyntaf tuag at uno ym mis Medi 2023 pryd y newidiodd Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed ei henw i Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru. Ar 31 Mawrth 2024, bydd y tair ymddiriedolaeth archaeolegol arall yn uno'n ffurfiol ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru. Bydd yr ymddiriedolaeth unedig yn masnachu o dan yr enw Heneb, ond bydd pob rhanbarth (Dyfed, Clwyd-Powys, Morgannwg-Gwent a Gwynedd) yn fwy neu lai'n dal i weithio fel yr oeddent yn flaenorol.



**Ymweliad safle Castell Caeriw**


# Ein Flwyddyn Mewn Rhifau



Ymgymerwyd â dros **120** o Brosiectau Archaeolegol.




Fel cynghorwyr i’n hawdurdodau cynllun lleol, rydym wedi prosesu ac asesu dros **4000** o Geisiadau Cynllunio



Rydym wedi ychwanegu dros **450**o gofnodion craidd newydd a dros **85** o gofnodion digwyddi-adau newydd at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol



Rydym wedi cael dros **80** o ymholiadau ynglŷn â’r Amgylchedd Hanesyddol, neu ddarganfyddiadau archaeolegol



Rydym wedi ychwanegu dros **40** o ddarganfyddiadau at y Gronfa Ddata Hynafiaethau Cludadwy



Rhoddodd dros **180** o wirfoddolwyr fwy na **1100** o ddiwrnodau o’u hamser dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch o galon i chi gyd!



Uchod: Mae YAD yn cynnal BrÎff Gwylio yn ystod symud Helygen y M ôr ym Mhen-bre

Isod: Cerbyd milwrol a ddefnyddiwyd ar gyfer hyfforddi yn ystod yr Ail Ryfel Byd



# Bryngaer Pendinas, Aberystwyth

Roedd hwn yn Brosiect Partneriaeth ar y cyd rhwng Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC). YAD oedd yn bennaf gyfrifol am y gwaith cloddio ac arolygu, gyda'r Comisiwn yn ymwneud â gwaith allgymorth ac ymgysylltu.

Cynhaliwyd y gwaith cloddio cyntaf am gyfnod o bedair wythnos o 27 Mawrth i 21 Ebrill 2023. Cloddiwyd pedair ffos, mewn rhai achosion, ochr yn ochr â mynd ati'n rhannol i ailgloddio ffosydd a gloddiwyd gan Daryl Forde yn y 1930au. Un o brif amcanion y gwaith oedd cael tystiolaeth wyddonol ar gyfer dyddio gweddillion er mwyn gallu dyddio rhai o'r gweddillion cymhleth a archwiliwyd yn y 1930au.



**Ffotograff drôn o Gloddiad Pendinas yn dangos y ffosydd (CBHC)**

Lleolwyd Ffos 2 yn union y tu mewn i'r fynedfa ogleddol i'r gaer, ar ben eithaf y clawdd amddiffynnol. Fe gafodd wal gynnal ar gyfer y clawdd ei datguddio, neu ei hailddatguddio, ar ôl i Forde ei dadorchuddio yn ystod ei gyfnod yn gweithio ar y safle. Dangoswyd fod y clawdd wedi'i wneud o haenau o gerrig llaid wedi'u malu a'u cynnwys ymysg haenau mwy hwmig, a oedd yn cynnwys darnau o siarcol, y bydd modd cael mesuriadau radiocarbon ohonynt. Daethpwyd o hyd i ddarnau o lestr gwydr a oedd yn gysylltiedig ag arteffact haearn ar ddyfnder o 1.2m yn y clawdd. Rhaid canfod tarddiad pendant y gwydr, ond mae'n bosib ei fod yn dyddio o'r canoloesoedd cynnar. Roedd yr Athro Helen Roberts o Brifysgol Aberystwyth wedi mynd â sawl sampl o'r ffos ar gyfer eu harchwilio gan ddefnyddio dulliau dyddio ymoleuedd.

Fe gafodd Ffos 3 ei thyllu i mewn i gefn y clawdd amddiffynnol i'r gorllewin o Ffos 2. Dangosodd hyn bod y modd yr adeiladwyd y clawdd yn debyg i hynny yn Ffos 3. Gwelwyd tystiolaeth o feddiannaeth ar ffurf draen wedi'i orchuddio â charreg, a daethpwyd o hyd i lawr cobls yn union y tu ôl i'r clawdd - gadawyd y rhain yn eu lle.

Roedd Ffos 4 yn archwilio gwrthglawdd isel y tu hwnt i'r prif glawdd amddiffynnol. Roedd hwn wedi'i wneud o ddarnau onglog o gerrig llaid, y tybiwyd y daethant o'r ffos amddiffynnol a dorrwyd yn y graig. Bydd siarcol o bwll bach o dan y clawdd yn ddigon ar gyfer cynnal mesuriadau radiocarbon.

Dyluniwyd Ffos 5 i archwilio rhan o'r clawdd amddiffynnol a'r llecyn yn union y tu mewn i'r clawdd, ochr yn ochr â phorth y culdir. Roedd Forde wedi cloddio porth y culdir yn helaeth. Roedd dyddodion dwfn o erydiad/golchiad yn gorwedd o fewn y clawdd. Ni chyrhaeddwyd yr isaf o'r rhain. Roedd y clawdd yn debyg o ran adeiladwaith i'r un a archwiliwyd yn Ffosydd 2 a 3. Fodd bynnag, datguddiwyd croesfur bras, sef wal a oedd yn ôl pob tebyg yn diffinio mannau lle'r oedd gwahanol giangiau'n gweithio, yn hytrach na bod unrhyw arwyddocâd iddi o safbwynt saernïol.

Gwaith cloddio cymunedol oedd hwn, gyda dros 50 o wirfoddolwyr yn ymrwymo tua 215 diwrnod o'u hamser i'r prosiect. Darparodd Beca Davies (CBHC) deithiau o amgylch y gwaith cloddio i dros 500 o bobl, ac i nifer o grwpiau ysgol ac eraill.



**Chwith: Rhai o wirfoddolwyr Pendinas 2023**

**(Llun T. Driver)**




**Dde: Rhai o weithwyr Forde yn y 1930au**

**(Llun CBHC)**

Cynhaliwyd gwaith cloddio cymunedol dros gyfnod o bedair wythnos ym Mhendinas ym mis Medi 2023, yn dilyn ymlaen o waith cloddio llwyddiannus dros gyfnod o bedair wythnos yn gynharach yn y flwyddyn.

Yn ystod y gwaith cloddio hwn, agorwyd ffos 12.5m wrth 9m, ac oddi mewn iddi, a hwnnw wedi'i gloddio'n gyfan gwbl, roedd llwyfan ar gyfer tŷ. Yn union i'r gogledd, cafodd ail lwyfan isel ar gyfer tŷ ei ddadorchuddio'n rhannol ac nid oedd y gwaith cloddio wedi'i gwblhau.

Roedd y llwyfan a oedd wedi'i gloddio'n gyfan gwbl bron yn grwn. Fe'i torrwyd hyd at 1.2m o ddyfnder i mewn i lethr yn wynebu'r dwyrain, i greu llwyfan gwastad. Mae'n amlwg bod yr adeiladwyr wedi rhagweld problemau draenio gan y torrwyd rhigol i mewn i'r creigwely sy'n rhedeg o amgylch troed toriad y llwyfan, ac sy'n gwagio i'r llethr serth i gyfeiriad y de-ddwyrain. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod y draen hwn yn annigonol, gan y torrwyd dau ddraen, mwy sylweddol, i gyfeiriad canol y llwyfan.

Roedd sawl twll postyn a phyllau wedi'u tyllu i mewn i'r creigwely caled. Roedd rhai ohonynt wedi'u cerfio'n daclus yn y creigwely, byddai wedi cymryd llawer iawn o amser i wneud hyn, a byddid yn sicr o fod wedi gorfod defnyddio offer haearn i wneud y gwaith. Byddai'r tyllau postyn mwy wedi dal coed sylweddol. Nid oes gan y tyllau pyst unrhyw batrwm gweladwy, hynny yw, nid ydynt wedi'u halinio ac nid oes unrhyw gylchau.

Lleolir yr ail lwyfan tŷ is yn union i'r gogledd o'r llwyfan sydd wedi'i gloddio'n gyfan gwbl. Cafodd y rhan fwyaf o'r dyddodion a'r nodweddion archaeolegol a oedd yn gysylltiedig â'r llwyfan hwn eu gadael yn eu lle.

Ar wahân i nifer o gerrig crynion, yr oedd o leiaf rhai ohonynt yn gerrig tafl, ychydig iawn o bethau y daethpwyd o hyd iddynt yno. Fodd bynnag, daethpwyd o hyd i sidell garreg, rhan o gylch carreg, ynghyd â breuan gyfrwy bosibl - yr oedd pob un o'r darganfyddiadau'n nodweddiadol o feddiannaeth yn ystod yr Oes Haearn. Mae gweddillion y llwyfan a gloddiwyd yn anodd i'w dehongli. Mae'n amlwg mai lleoliad adeilad oedd hwn, ond nid oedd unrhyw aelwyd ganolog, ac ni chafwyd ond ychydig iawn o siarcol a thystiolaeth arall o feddiannaeth y byddid yn disgwyl ei gweld o fewn adeiledd domestig.

Gwaith cloddio cymunedol oedd hwn, gyda'r mwyafrif o'r gwirfoddolwyr yn dod o Benparcau ac Aberystwyth. Roedd cyfanswm o bedwar deg naw o wirfoddolwyr wedi rhoi dros 120 diwrnod o'u hamser i wneud y gwaith.



**Detholiad o ffotograffau o gloddiad mis Medi ym Mhendinas**



Ym mis Medi unwaith eto, bu'r Ymddiriedolaeth yn gweithio mewn partneriaeth â CBHC i gynnal gŵyl archaeoleg Pendinas fel rhan o Brosiect Pendinas. Cynhaliwyd y digwyddiad tra bo'r gwaith cloddio'n parhau, a chafwyd teithiau tywysedig yn mynd ag ymwelwyr i safle'r gwaith cloddio i weld y darganfyddiadau a chael clywed eu hanes. Cynhaliwyd arddangosfeydd a gweithgareddau i blant yn yr Hwb ym Mhenparcau, gan gynnwys cyflwyniadau gan Ken Murphy a Toby Driver (CBHC). Agorwyd yr ŵyl yn swyddogol gan Ben Lake AS, a bu rhai sy'n ymwneud ag ail-greu hanes o Gastell Henllys yn paentio wynebau ac yn darparu hyfforddiant i saethu cerrig tafl. Roedd sŵn canu'r catgorn ar Bendinas yn creu naws atgofus iawn, ac ar ben hynny, roedd llengfilwr Rhufeinig yn bresennol gyda'r arfwisg wedi'i darparu gan Amgueddfa Cymru. Ymhlith yr amryw weithgareddau ar gyfer plant yr oedd creu potiau clai ac adeiladu tŷ crwn bach, ynghyd â chael gwisgo arfwisg Rufeinig. Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod yn aruthrol, ac roedd yn llwyddiant ysgubol, gyda dros 500 o bobl yn bresennol, a dros 100 o bobl yn cerdded i fyny i safle'r gwaith cloddio, dan arweiniad Beca Davies (CBHC).





# Iet Wen—Sir Benfro

Ym mis Hydref, dros gyfnod o bythefnos, cynhaliwyd gwaith cloddio cymunedol mewn lloc, a allai fod yn gaeran Rufeinig, ger Tafarn-sbeit yng ngorllewin Sir Gaerfyrddin.

Yn 2020, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth arolwg magnetometreg o'r safle. Roedd ffos y lloc yn dangos anomaledd pendant, a oedd yn mesur 40m wrth 38m, gyda chorneli crwn a mynedfa hanner ffordd ar hyd yr ochr orllewinol. Roedd clawdd, tua 4.5m o led, y tu mewn i'r ffos. Cafodd ffos sgwâr-onglog ei chloddio â pheiriant i archwilio natur y clawdd amddiffynnol a oedd yn goroesi yno, ynghyd â'r ffos ar y ddwy ochr, a ph'un a oedd nodweddion mewnol wedi goroesi. Roedd estyniad N-S byr yn targedu'r fynedfa i'r lloc. Roedd yn amlwg bod y llecyn cyfan wedi'i aredig yn drylwyr yn y gorffennol, ond daethpwyd o hyd i olion clawdd mewnol, yn enwedig yn rhan ogleddol y ffos, a adeiladwyd o glai a cherrig bychain. Roedd gan y clawdd wal gynnal gerrig allanol yr ymddengys ei bod wedi'i gwthio'n fwriadol i mewn i'r ffos. Yn yr ochr orllewinol, roedd olion y wal gynnal gerrig wedi'u selio gan haen dywyll, llawn siarcol, a oedd yn cynnwys dwb llosg, sydd unwaith eto efallai'n awgrymu y cafodd y safle ei ddinistrio neu ei ddymchwel yn fwriadol.



**Wal gynnal allanol clawdd amddiffynnol ar ochr ogleddol y gaeran, sydd wedi cwympo neu wedi'i gwthio i mewn i'r ffos allanol**

Yn fewnol, cofnodwyd tystiolaeth ar gyfer cyfres o loriau cobls, yr oedd nifer o dyllau pyst wedi'u tyllu trwyddynt. O fewn y fynedfa, roedd y cobls wedi'u gosod yn dynn, ac roedd peth tystiolaeth o dyllau pyst posib, ond o fewn y llecyn bach o fewn y ffos, nid oedd modd gweld eu bod yn ffurfio unrhyw batrwm cyson. Ni chafodd unrhyw ddarganfyddiadau eu cloddio o unrhyw un o'r nodweddion, ar wahân i rai naddion fflint a oedd yn weddill. Roedd cyfanswm o 36 o wirfoddolwyr wedi cymryd rhan yn y gwaith cloddio dros y cyfnod o bythefnos, gan weithio cyfanswm o 780 o oriau gwirfoddol.



Uchod: Yr olygfa i’r gogledd ddwyrain o’r llawr cobls mewnol

Isod: Andrew Shobbrook o’r Ymddiriedolaeth yn dangos y gwaith cloddio i blant o Ysgol Gynradd Gymunedol Tafarn-sbeit



# Llanddewi Felffre—A40

Bu angen gwneud gwaith archaeolegol yn ystod gwaith uwchraddio cefnffordd yr A40 rhwng Llanddewi Felffre a Chroesffordd Maencoch, Sir Benfro. Dechreuwyd y gwaith gyntaf ym mis Tachwedd 2021, a dechreuodd ail gyfnod o waith maes ym mis Ionawr 2023.

Mae llawer o’r gwaith yn yr ail gyfnod hwn wedi canolbwyntio ar gloddio llecynnau mawr o nodweddion o Oes Newydd y Cerrig a’r Oes Efydd, yr oedd y ddau’n nodweddion angladdol, defodol a domestig o ran cymeriad. Ymhlith y cyfoeth o nodweddion yr oedd nifer o byllau Neolithig a llociau palis, yn ogystal â thystiolaeth brin ar gyfer anheddiad o’r Oes Efydd, yr ymddengys yn debygol (o ganlyniad i’r priddlestri y daethpwyd o hyd iddynt) eu bod yn dyddio’n ôl i ddiwedd yr Oes Efydd (*tua* 2500-750 CC). Ystyrir fod yr olion hyn yn dystiolaeth o anheddiad lefel isel neu wersyllfan, ac maent yn cynnwys adeileddau bach, tebyg i bebyll, a ffurfiwyd o dyllau polion, yn ogystal ag aelwydydd wedi’u leinio â cherrig.



**Chwith: Golygfa o’r awyr o gylch o dyllau polion, a oedd o bosib yn ffurfio adeiledd tebyg i babell, ynghyd ag aelwyd wedi’i leinio â cherrig, y mae’n debygol ei bod yn dyddio’n ôl i ddiwedd yr Oes Efydd**



**Dde: Cloddio gweddillion ffos lloc crwn**

GRIFFITHS civil engineering and construction

Llywodraeth Cymru Welsh Government

LANDSKER Archaeology

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund



Uchod: Un o’r aelwydydd sydd wedi’i leinio â cherrig

Isod: Darn o freuan yn ei le



# Ucheldiroedd Arfordirol: Treftadaeth a Thwristiaeth —UATT

Mae gwaith yr Ymddiriedolaeth wedi parhau yng nghyswllt prosiect yr Ucheldiroedd Arfordirol: Treftadaeth a Thwristiaeth (UATT), sy'n brosiect a ariennir gan yr UE, rhwng Prifysgol Aberystwyth/ Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed a Phrifysgol Dulyn. O fis Rhagfyr 2022, cyflogwyd aelod staff ychwanegol i'r Ymddiriedolaeth i gynorthwyo'r Swyddog Prosiect, Jessica, gyda'r gwaith ail-greu digidol ac ymgysylltu cymunedol.

Buom yn cynhyrchu modelau digidol 3D o amryw safleoedd archaeolegol yn y Preseli a Mynyddoedd Cambria, gan gynnwys brigiadau, bryngaerau, a chrugiau o'r Oes Efydd ar hyd Crib y Preseli (Yr Heol Aur). Bu'r Ymddiriedolaeth wrthi hefyd yn digideiddio arteffactau a leolir mewn amryw amgueddfeydd, er enghraifft, wrn amlosgi o grug Croesmihangel a leolir bellach yn Amgueddfa Dinbych-y-pysgod. Rydym wedi ymwneud â chreu a chynnal gweithgareddau yng nghyswllt gwyddoniaeth y dinesydd gan ddefnyddio LiDAR a gwirio yn y maes ('ground truthing') ar gyfer digwyddiadau cymunedol, a chyflwynwyd sgyrsiau wyneb yn wyneb ac ar-lein yn Amgueddfa Dinbych-y-pysgod, neuadd gymuned Maenclochog, ac yn ystod Diwrnod Archaeoleg Sir Gaerfyrddin. Buom yn cynghori ynghylch gwaith ailadeiladu ym mwyngloddiau Cwmystwyth ac ym mryngaer Castell Rhyfel yng Ngheredigion a bryngaer Foel Drygarn yn y Preseli. Yn ogystal â hyn, gwnaed gwaith cynllunio at y dyfodol ar gyfer cynnal arolygon geoffisegol cymunedol, gwaith gwirio yn y maes, y posibilrwydd o gofnodi mynwentydd, ynghyd â gwaith ailadeiladu/ digidio yn yr ardaloedd ffocws.



**Chwith: Delwedd o fodel 3D o Fryngaer Carn Alw yn y Preseli, a grëwyd o luniau drôn**

**Ar y dde: Delwedd 3D o wrn Crug Croesmihangel**



CUPHAT

Coastal Uplands: Heritage and Tourism · Ucheldiroedd Arfordirol: Treftadaeth a Thwristiaeth · Ceantair Shléibhe Cois Cósta: Oidhreacht agus Turasóireacht

Ymddiriedolaeth archaeolegol DYFED archaeological trust

EU Funds: Ireland Wales Programme 2014-2020

Tionól Réigiúnach an Deiscirt Southern Regional Assembly

Ireland's European Structural and Investment Funds Programmes 2014-2020

Co-funded by the Irish Government and the European Union

Undeb Ewropeaidd European Union · Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop European Regional Development Fund

YMDDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL DYFED ARCHAEOLOGY

# DIWRNOD ARCHAEOLEGOL

# ARCHAEOLOGY DAY

# 2024





*A day of presentations, exhibitions and discussions on the results of recent archaeological research and investigations*

*Diwrnod o gyflwyniadau, arddangosfeydd a thrafodaethau ar ganlyniadau ymchwil ac ymchwiliadau archaeolegol diweddar*

**Dydd Sadwrn 23 Mawrth Saturday 23 March**

**Canolfan John Burns Centre SA17 5AB , 10.00 – 4.30**

**More details to follow**

**Mwy o fanylion i ddilyn**

DYFED ARCHAEOLOGY

ARCHAEOLEG DYFED

Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government